

# Monmouthshire Select Committee Minutes

## Pwyllgor Craffu Oedolion Remote Meeting Dydd Mawrth, 16eg Mawrth, 2021, 10.30 am

### CYNGHORWYR YN BRESENNOL

Cynghorydd Sirol S. Howarth (Cadeirydd)  
Cynghorydd Sirol L. Brown (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: M.Groucutt, R. Harris, M.Lane,  
P.Pavia, M. Powell, S. Woodhouse

T. Crowhurst, Cynghorydd Sirol P. Jones

### SWYDDOGION YN BRESENNOL

Eve Parkinson, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion  
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Cheryl Haskell, Community Hubs North & Libraries  
Strategic Lead Manager  
Richard Drinkwater, Community Hub Manager  
Gillian Dicken, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd  
(Masnachol)  
Louise Driscoll, Specialist Environmental Health  
Officer

#### 1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

#### 2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

#### 3. Dysgu Cymunedol a Llyfrgelloedd - Trafodaeth ar sut y datblygodd y gwasanaethau er mwyn sicrhau bod oedolion yn Sir Fynwy yn parhau i gael mynediad at lyfrau, dysgu a chysylltiadau cymdeithasol tra'n aros gartref.

Cyn yr eitem, cafwyd munud o dawelwch i'r Cynghorydd David Dovey.

Cyflwynodd Richard Drinkwater a Cheryl Haskell yr adroddiad gan ateb cwestiynau'r aelodau.

##### **Her:**

*Beth yw'r union ddiffyg mewn gwariant a staff a gyflogir? Beth ellid ei wneud i wneud y gwasanaeth hyd yn oed yn well, pe bai mwy o arian?*

Torrwyd y cyllidebau fel rhan o ostyngiad yn y gwasanaeth 4 blynedd yn ôl, pan dorwyd y gyllideb lyfrau 50%. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru Ceisiwn gylchredeg cymaint o ddeunydd ag y gallwn: yn flaenorol, efallai ein bod wedi prynu sawl copi o lyfr fesul llyfrgell ond nawr rydym yn prynu un neu ddau gopi ac yn eu cylchredeg. Rydym wedi dod yn fwy darbodus, felly, ond hefyd yn fwy creadigol, ac nid yw'r cwsmer ar ei golled. Os oes cais penodol am lyfr, yn y rhan fwyaf o achosion, gallwn gael y lyfr ar eu cyfer ac yna ei roi ar gadw ar gyfer cwsmeriaid eraill.

Gyda mwy o arian, byddem yn gwneud cymaint o bethau, felly mae'n anodd bod yn benodol. Rydym wedi buddsoddi mwy o arian bob blwyddyn mewn digidol, gan adlewyrchu'r tueddiadau newidiol a welwn.

O ran staffio, mae'r adroddiad yn ein hisraddio oherwydd ein bod yn hybiau cymunedol, nid llyfrgelloedd yn unig, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn cyfrif yr oriau cyngor y mae ein cydweithwyr yn eu gweithio - dim ond cyfran o'u hamser y gallwn ei chyfri tuag at oriau'r llyfrgell. Ni fydd hynny'n newid cyn belled â'n bod ni'n hyb cymunedol. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu awdurdodau lleol eraill. Mae'r Fenni ychydig yn wahanol oherwydd bod y gwasanaeth yn cael ei gynig ar draws dau lawr; felly, mae'r llif yn wahanol i'r hyn fyddai yn yr hybiau cymunedol eraill. Ond mae ein cydweithwyr i gyd yn gweithio drwy'r gwasanaethau - nid ydym yn eu gwahanu i'r cyngor a'r llyfrgell.

*A yw'r cyngor cychwynnol i gadw llyfrau mewn cwarantîn am 72 awr wedi'i ddiweddarau?*  
Erys y canllaw y dylid rhoi llyfrau mewn cwarantîn am 72 awr. Cyhoeddir llyfrau trwy broses Gwnaed cais a Chasglu. Mae cwsmeriaid yn eu dychwelyd i'r hyb neu'r siop Un Stop yn y Fenni, lle cânt eu rhoi mewn blwch a'u tynnu allan o gylchrediad am 72 awr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynghori unrhyw beth gwahanol. Nid yw wedi achosi unrhyw anhawster i ni trwy gydol y pandemig, ac mae cwsmeriaid wedi bod yn ddeallgar iawn.

*A ellid esbonio'r strwythur codi tâl ymhellach, yn benodol ynghylch Digidol?* Byddai'n fwy adeiladol anfon y ffigurau allan i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

*Mae'n debyg bod y rhai sy'n fwy caeth i'r tŷ, ac sy'n derbyn danfoniadau llyfrau, yn llai abl i gwblhau'r cyfrifiad?*

Ar hyn o bryd, mae'r Fenni, Brynbuga a Chas-gwent yn ganolfannau Cymorth Cyfrifiad. Ar sail apwyntiad, gallwn gefnogi defnyddwyr dros y ffôn i lenwi eu papur cyfrifiad. Mae Matthew Gatehouse wedi gofyn i'r cwmni a allwn wneud rhywfaint o gymorth wyneb yn wyneb, gan mai dyma sydd orau gan rai pobl; mae ein hybiau wedi'u sefydlu'n ddiogel iawn er mwyn i hyn ddigwydd. Gobeithiwn gael ateb i hynny yn ddiweddarach heddiw. Y rhif i bobl ei ffonio yw rhif arferol y ganolfan gyswllt. Mae gennym ddau siaradwr Cymraeg, os byddai'n well gan y cwsmer siarad yn y Gymraeg.

*Un o'r materion allweddol i bobl anabl yw allgau digidol. Sut mae hyn wedi'i oresgyn yn y llyfrgelloedd, gan gynnwys yn ymwneud â'r defnydd cyn-bandemig o hybiau ar gyfer hyfforddiant?*

Mae allgau digidol wedi bod ar ein radar ers amser maith. Mae Sir Fynwy wedi dioddef - tan y flwyddyn academaidd hon - o fod yn un o'r ardaloedd sydd wedi'i hariannu waethaf yng Nghymru, o ran darparu addysg gymunedol. Eleni, oherwydd strwythur ariannu newydd o fewn Llywodraeth Cymru, mae ein cyllid at addysg gymunedol ar gyfer ein darpariaeth uniongyrchol wedi cynyddu o ychydig dros £2k i dros £55,000k, gan ganiatáu inni wneud cais am gyllid pellach, yn rhannol i fynd i'r afael ag allgáu digidol yn y sector cyhoeddus yn y Sir. Yn flaenorol, oherwydd lefel y cyllid a oedd gennym, cawsom ein heithrio rhag gwneud cais am fwy. Dyfarnwyd £15k i ni eleni. Yn rhan o'r broses ymgeisio am grant, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr yng Nghasnewydd i fapio ble mae allgáu digidol yn bodoli yn Sir Fynwy. Mae wedi amlygu ardaloedd fel coridor Magwyr-Cil-y-coed, a rhai ardaloedd anghysbell yn Y Fenni. Defnyddiwyd y wybodaeth honno i flaenoriaethu ble/sut i wario'r £15k. Rydym yn dioddef o gysylltedd gwael yn Sir Fynwy, felly gwnaethom fuddsoddi'r grant i raddau helaeth mewn dyfeisiau Myfi, sydd - yn eu hanfod - yn allyrwyr band eang annibynnol. Peth allweddol hefyd yw cymhwysedd digidol - mae angen i ni diwtora pobl i ddefnyddio'r dyfeisiau, sydd wedi creu eu carfan eu hun o broblemau. Trwy rywfaint o waith gyda Choleg Gwent, rydym wedi sefydlu mentoriaid digidol ym mhob un o'r siroedd yn y bartneriaeth pum sir, a sefydlodd gymhorthion addysgu pellter cymdeithasol a chanllawiau galw i mewn. Rydym yn cydnabod nad yw hyn o reidrwydd yn disodli'r hyn y byddai rhywun yn ei gael o fynychu dosbarth yn bersonol - gallant

ymsgysylltu dros lwyfan digidol ond nid yw'n union yr un peth â bod mewn ystafell gyda phobl eraill. Rydym yn ei weld fel cam bach tuag at alluogi digidol ac atal ynysu cymdeithasol.

*Mae'r lifft i'r llawr cyntaf yng nghanolbwynt y Fenni yn broblem i lawer o bobl anabl oherwydd risgiau tân.*

Nid ydym yn ymwybodol y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud yn Y Fenni. Mae'r pwynt am hygyrchedd yn sicr wedi'i nodi. Mae'r gofod sydd gennym yn awr, a'r cyfleusterau y gallwn eu cynnig, yn llawer mwy na'r hyn a gynigiwyd gennym yn y lleoliad blaenorol yn Stryd y Popty. Efallai nad yw'n berffaith ond mae'n welliant mawr: mae mwy o le i symud, cyfleusterau toiled gwell, ac ati. Roedd cwestiwn ychydig yn ôl am fynediad i sgwteri yn y lifft - buom yn gweithio gyda rhywun sy'n defnyddio sgwter, a ddaeth i roi cynnig arni drosom. Roedd yn meddwl bod popeth wedi'i osod yn dda, ac rydym wedi caffael ein sgwter ein hunain ar gyfer y llawr cyntaf i unrhyw un sydd ei angen. Rydym yn agored i awgrymiadau pellach ond nid ydym yn rhagweld gwneud unrhyw ychwanegiadau pellach ar hyn o bryd.

Pa mor dda mae'r hybiau eraill wedi'u haddasu i fynediad i'r anabl, yn enwedig yng Nghas-gwent?

Yn 2020, ychydig cyn y cyfyngiadau symud, cafodd y toiledau anabl ar y llawr gwaelod yn hyb Cas-gwent eu hadnewyddu'n llwyr. Rydym yn hapus bod yr holl gyfleusterau yno yn agored i bawb. Mae gennym hefyd gyfleusterau i'r anabl ar y llawr cyntaf a lifft sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Nid yw £15k yn ymddangos fel llawer i gael pobl ar-lein – am beth y gall yr arian hwnnw dalu?

Rydym yn defnyddio graddfa o farchnadoedd ar gyfer ein pwrcasu. Edrychwyd hefyd ar werth ariannol is fesul uned ar gyfer dyfeisiau. Gan weithio i ddechrau gyda Llywodraeth Cymru, daethom o hyd i 30 o ddyfeisiau ond roedd problemau gyda'r gadwyn gyflenwi, felly aethom i'r farchnad a chael 32 o Lyfrau Net (y mae 20 ohonynt bellach allan yn y gymuned) a'r 18 dyfais Myfi. Fe wnaethom hefyd brynu ac adnewyddu 11 iPad ar gyfer ein dosbarthiadau digidol yn yr hybiau, a phrynu 4 dyfais Facebook Portal. Mae'r rhain yn edrych fel tabledi ond mae ganddyn nhw lens llygad pysgodyn ac maen nhw'n rhedeg gyda Zoom, rydym ni'n eu defnyddio ar gyfer danfoniad digidol i gymunedau. Rydym wedi gallu rhoi benthyg y rhain i'n tiwtoriaid ar gyfer cyflwyno, er enghraifft, ddosbarthiadau coginio i rieni a phlant. Mae'r tiwtor yn rhoi'r porth ar wyneb gweithio'r gegin; mae gan y rhai sy'n deialu i mewn o gartref ddarlun clir iawn o'r paratoi a'r coginio trwy lens llygad pysgodyn, a gallant gymryd rhan yn y sesiwn bron fel pe baent yno'n bersonol. Mae hyn wedi ein galluogi i fynd y tu hwnt i broblemau daearyddol. Mae Covid wedi ein hannog i gyflymu rhai o'n dymuniadau gan ddefnyddio dulliau digidol.

Ymgeisiodd Cheryl a Fiona Ashley yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn llwyddiannus am £15k gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r holl dechnoleg ddigidol fynd allan i'n cymunedau. Hefyd, rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Miranda Thomason o GAVO, sy'n arwain partneriaeth - maent wedi gwneud cais llwyddiannus am £30k, ac rydym yn creu llyfrgell benthyca ddigidol gyda hi. Rhyngom, felly, mae gennym adnoddau eithaf da yn mynd i mewn i offer digidol - rydym yn mynd allan nawr i brynu'r offer hwnnw.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Canmolodd yr aelodau y tîm am ei waith, ac ansawdd y gwasanaethau yn yr hybiau.

Nododd Tony Crowhurst efallai bod y dyluniadau ar gyfer Hyb newydd y Fenni wedi'u gwneud cyn i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei wneud – dylai hyn felly fod yn wers i'r cyngor ar gyfer cynllunio at y dyfodol.

Awgrymodd y Cynghorydd Brown y dylid targedu etholwyr ynysig ar sail ragweithiol pan ddaw i'r cyfrifiad, er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn.

Bydd Cheryl Haskell yn anfon ffigyrau yn ymwneud â'r strwythur codi tâl at yr aelodau ar ôl y cyfarfod.

#### **4. Diweddariad llafar ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o ran Gwasanaethau i Oedolion mewn perthynas â phwysau Covid-19.**

Siaradodd Eve Parkinson gyda'r aelodau.

Dechreuwyd cyflwyno Cyfarpar Diogelu Personol am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2020. Rydym yn darparu tua 360,000 o ddarnau o Gyfarpar Diogelu Personol bob pythefnos - rydym yn darparu ar gyfer ein gwasanaethau ein hunain a'r sector annibynnol. Ar ddechrau'r mis hwn, cafodd Profion Llif Unffordd eu cynnwys yn y cyflenwad hwnnw; rydym wedi rhoi 3 mis o gyflenwad i bobl. Mae lleoliadau preswyl wedi bod yn faes heriol iawn. Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda darparwyr, gan gynnal cyfarfodydd rheolaidd i fynd trwy ganllawiau a chynnig cefnogaeth. Rydym hefyd wedi darparu cymorth unigol, pan fo angen, gan gynnwys sut i hawlio drwy'r gronfa Caledi.

Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yn lechyd yr Amgylchedd, y Bwrdd lechyd ac lechyd Cyhoeddus Cymru, gan gefnogi cartrefi ag achosion. Rhagfyr ac Ionawr oedd y misoedd gwaethaf ar gyfer hyn – mewn rhai achosion, nid oedd staff a oedd yn darparu cymorth yn mynd adref am rai wythnosau. Mae cyflwyno Profion Llif Unffordd yn golygu bod llawer o waith ychwanegol i'r cartrefi ei wneud. Rydym nawr yn cefnogi cartrefi gyda sut y byddant yn gweithredu'r cyhoeddiad diweddar y gall ymweliadau aildechrau.

Bu darparu gofal cartref yn her, ar adegau. Rydym wedi cael prinder staff, oherwydd ynysu a gwarchod, ac ati. Mae'r sector annibynnol wedi tueddu i gael cyfnod o amser pan nad yw'n gallu bodloni eu galw; rydym wedi gorfod eu cefnogi, ond ar rai achlysuron prin, nid ydym ni wedi cael y gallu i wneud hynny, ac rydym wedi dod ag asiantaethau allanol i mewn. Yn gyffredinol, mae ein staff ar draws y sector wedi bod yn 'ymarferol'.

Mae gwaith ail-alluogi wedi parhau trwy gydol y pandemig. Mae peth ohono wedi bod yn rhithwir.

Mae effaith y cyfyngiadau symud wedi bod yn sylweddol: mae pobl yn sôn am ddod yn 'ddatgyflyredig', lle maent wedi dod yn fwy bregus a dibynnol. Felly rydym wedi gweld cynnydd yn rhai o'r atgyfeiriadau. Mae gwaith cymdeithasol hefyd wedi parhau, gyda rhai ymweliadau wyneb yn wyneb a rhai rhithwir.

Diogelu: bu cynnydd mewn atgyfeiriadau mewn rhai meysydd, yn ymwneud â phobl dan straen mawr, trais domestig, iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol, pwysau o ran darparu gofal, ac ati. Mae brechiadau wedi bod yn heriol iawn ar adegau: ni oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r enwau staff rheng flaen ar draws y sectorau mewnol ac annibynnol, sef miloedd o enwau. Mae'r nifer sy'n manteisio ar frechiadau wedi bod yn dda iawn. Mae pob un o'n cartrefi wedi cael eu dogn cyntaf, gyda'r ail wedi'i archebu.

Rydym wedi cael Chromebooks gan Lywodraeth Cymru, a roddwyd i ofalwyr ifanc fel y gallant weithio o bell a chysylltu â'i gilydd. Mae rhai wedi gweld gweithio o bell yn well mewn gwirionedd. Mae gwasanaethau dydd wedi parhau, ond yn wahanol, yn gwneud pethau'n fwy unigol. Pan nad ydym ar Lefel 4, rydym wedi parhau ag ymweliadau cartref yn ôl yr angen, tra rydym yn gwisgo'r holl Gyfarpar Diogelu Personol priodol.

Mae gofal seibiant wedi bod yn dipyn o her, yn enwedig o ran y gallu i fynd i rywle am gyfnod byr. Mae llawer o bobl wedi cael gofal seibiant yn eu cartref 24 awr. Rydym ni

wedi defnyddio fflat yng Ngerddi Lafant fel canolfan seibiant i ychydig o bobl. Mae seibiant brys wedi bod yn heriol – nid o reidrwydd yn ymwneud ag argaeledd, ond am y ffaith, os yw pobl yn mynd i gael seibiant, mae'n rhaid iddynt fod wedi cael swab o fewn 48 awr, nad yw bob amser wedi bod yn hawdd cael gafael arno. Hefyd, os bydd rhywun yn mynd i leoliad preswyl i gael seibiant, mae'n rhaid iddo gael ei ynysu am 14 diwrnod, a all gael effaith fawr ar y person hwnnw, yn enwedig os nad yw'n llwyr ddeall pam.

#### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Nid oedd unrhyw gwestiynau. Diolchodd y Cyngorydd Penny Jones a'r pwyllgor i'r tîm am fynd gam ymhellach a thu hwnt yn eu gwaith caled, yn enwedig o ystyried yr heriau sylweddol a wynebwyd ganddynt.

### **5. Tracio, Orlhain a Diogelu - Diweddariad llafar ar y sefyllfa bresennol a'r gwasanaethau a ddarperir.**

Siaradodd Gill Dicken a Louise Driscoll â'r aelodau ac ateb eu cwestiynau.

Diweddarodd y tîm y pwyllgor ddiwethaf ym mis Gorffennaf. Ym mis Medi, fe ddechreuon ni nodi achosion. Roedd tîm iechedd yr amgylchedd yn gwneud y tracio a'r olrhain yn y cyfnod hwnnw, ac roedd tîm o gynghorwyr o dan Richard Drinkwater. Fe ddechreuon ni gasglu Tracio & Orlhain ar gyfer Caerffili a gogledd Cymru. Ym mis Hydref, daeth yr holl dîm Tracio & Orlhain o dan Iechyd y Cyhoedd a Diogelu'r Amgylchedd. Fe wnaethom ychwanegu strwythur i'r cynghorwyr a datblygu'r tîm. Ym mis Tachwedd, roedd y tîm mewn lle da. Roedd y niferoedd yn cynyddu. Erbyn mis Rhagfyr, fe gyrhaeddodd ni niferoedd uchel iawn ond roeddem ni'n cyflogi pobl o bob rhan o'r cyngor – adleoli, o FywydMynwy, gwirfoddolwyr ac ati – ac fe wnaethom ni ddewis yn benodol bobl â chefnidir iechedd amgylcheddol neu feddygol, gan roi'r gallu i ni ymateb i achosion a chlystyrau yn gyflym iawn. Pan ddechreuodd y cyfnod atal byr, roeddem yn hyderus y gallem reoli'r clystyrau.

Erbyn mis Chwefror, roedd y niferoedd yn gostwng, felly roeddem yn gallu dechrau lleihau'r tîm. Arhoswn nawr i weld beth sy'n digwydd yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf gydag ysgolion ar fin mynd yn ôl, profion Plu yn mynd ymlaen, a mesurau cloi yn lleddfu'n raddol. Rydym ni'n gwybod nawr y gallwn ni ystwytho'r tîm i fyny ac i lawr pan fo angen.

Rydym ni nawr i lawr i 15 o olrheinyddwyr, yn gweithio 8 tan 8, 7 niwrnod yr wythnos. Mae niferoedd yn gostwng, felly mae cloi wedi gweithio'n dda iawn yn Sir Fynwy, ochr yn ochr â'r brechlynnau. Ers i ni ddechrau olrhain ym mis Mehefin, rydym wedi cael 4,174 o achosion yn Sir Fynwy; allan o'r rheini, rydym wedi ymateb i 99.7% o fewn cyfnod o 48 awr ar draws Gwent (gydag ystadegau Sir Fynwy ar frig y bwrdd arweinyddwyr). Mae'n stori o lwyddiant yng Nghymru. O'r 4,174 o'r achosion hynny, cynhyrchwyd dros 6,000 o gysylltiadau. Rydym hefyd yn gweithio'n agos, ac yn cael cyfarfodydd dyddiol, gyda'n partneriaid eraill yng Ngwent. Mae gennym gyfathrebu da iawn i'n galluogi i ymateb i unrhyw weithleoedd a allai weld clwstwr o achosion. Rydym yn adolygu'r data hynny'n ddyddiol, ac yn adrodd yn wythnosol i ICC a Llywodraeth Cymru ar ein hachosion ac unrhyw bigynnau. Mae gan y tîm gysylltiad da â gweithleoedd, a sefydlwyd cyn Covid.

Hefyd, rydym wedi gwneud llawer o waith gydag ysgolion, sydd bellach yn cyflwyno'r profion Plu, sy'n rhoi canlyniad mewn ychydig funudau. Mae pob aelod o staff wedi cael y pecynnau hyn. Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'n penaethiaid, sydd wedi bod yn wych wrth weithio gyda ni.

Rydym wedi cael niferoedd isel, o gymharu â gweddill Gwent, oherwydd bod penaethiaid wedi gwneud gwaith gwych yn cael swigod i ynysu. Er, yn flaenorol,



byddem yn ynysu'r grŵp blwyddyn gyfan, nawr rydym yn mynd yn ôl ac yn tracio ac yn olrhain i gyfyngu cymaint â phosibl ar nifer y staff a'r plant yr effeithir arnynt. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Will McLean a'i dîm. Mae rhai o'n holrheinwyr yn gyn-athrawon, felly maen nhw'n deall diwylliant yr ysgolion. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chartrefi gofal a'r tîm comisiynu hefyd.

Rydym wedi cynnal astudiaethau ar y rhai sy'n ynysu, gan weithio gyda'r tîm Partneriaethau, a chefnogi preswylwyr ar eu pen eu hunain. Mae ôl olrhain wedi bod yn gyflwyniad newydd. Mae Sir Fynwy ar ei phen ei hun ar hyn yng Ngwent. Rydym wedi gwneud hyn o'r dechrau, gan fynd yn ôl bob amser ymhellach na 48 awr, gan annog safleoedd a gweithleoedd i gael pawb sydd wedi ymweld â ni i gysylltu â ni, a'u cynghori i gael prawf. Bu cydymffuriad da. Nawr, mae Cymru gyfan yn gwneud gwaith ôlrolrhain 14 diwrnod. Nid oes rhaid iddynt ynysu os ydynt y tu allan i'r cyfnod heintus o 48 awr ond fe'u cynghorir i gyd i gael eu profi - felly, gobeithio, gallwn ddod o hyd i'r bobl asymptomatig hynny allan yn y gymuned. Ac, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi rhyddhau canllawiau ar unrhyw un sydd wedi bod yn gyswllt uniongyrchol yn ystod eu cyfnod heintus i gael prawf ddwywaith o fewn yr 8 niwrnod cyntaf. Cawsom 200+ o achosion yr wythnos ym mis Ionawr ac erbyn hyn rydym wedi gostwng i 25 yn ystod y 7 niwrnod diwethaf. Rydym yn disgwyl rhywfaint o gynnydd gyda chyfyngiadau'n cael eu codi ond rydym yn rhagweithiol yn ein hymagwedd gyda busnesau, ysgolion, ac ati.

#### **Her:**

*Pan fydd yn rhaid i rywun hunan-ynysu, a ydym ni'n gwirio eu bod yn gwneud hynny?*

Ar gyfer achos cadarnhaol, mae'r alwad olrhain yn cael ei hategu gan lythyr neu neges SMS. Yna mae'r bobl yn y cartref hwnnw'n cael eu dosbarthu fel cyswllt agos, a chysylltir â nhw bob dydd am 10 niwrnod. Gallant ddewis SMS ond mae'n well gennym ffonio a chael sgwrs go iawn. Rydym yn olrhain eu bod yn ynysu ond hefyd a ydynt yn iach, ac a ddylent fynd am brawf. Mae hyn wedi newid yn ystod yr wythnos ddiwethaf: rydym ni nawr yn dweud wrthynt i ynysu a chael prawf hefyd. Mae'n wahanol yn Lloegr gan ei fod yn cael ei redeg gan gwmni preifat; nid ydynt yn cysylltu â'u holl achosion cadarnhaol, ond yn anfon e-ffurflenni. Fe wnaethom ni roi tro ar e-ffurflenni am wythnos adeg y Nadolig a doedden nhw ddim yn gweithio.

*Er ein bod ni ymhellach ar y blaen i wledydd Ewrop gydag imiwneiddiadau, beth sydd wedi'i ddweud am baratoi ar gyfer trydedd don, ac a fyddai ei natur yn wahanol?*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd arian ar gael ar gyfer Tracio & Olrhain tan fis Medi. Felly byddwn yn cadw tîm craidd o olrheinwyr. Swyddogion iechyd yr amgylchedd sydd wedi ei gychwyn erioed. Ni sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny oherwydd bod gennym y cysylltiadau lleol, ac rydym yn deall yr ardal. Dyna pam rydym ni'n teimlo ei fod wedi gweithio'n dda iawn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld trydedd don ar gyfer tua mis Mai, felly bydd y contractau a Phrofi, Olrhain, Diogelu yn parhau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhagweld trydedd don ond nid ar yr un raddfa ag o'r blaen. Yn Tracio & Olrhain, rydym nawr yn monitro'r achosion cadarnhaol sydd wedi cael y brechlyn - mae'n debyg mai dyma fydd sail yr astudiaeth nesaf. Rydym yn cael diweddariadau wythnosol gan ICC ac rydym yn rhan o unrhyw benderfyniadau sy'n digwydd.

*Pa mor ddefnyddiol fu ap y GIG?*

Nid yw'r ap yn gysylltiedig â Phrofi, Olrhain, Diogelu. Mae'r ap yn dweud wrth y defnyddiwr am ynysu ond mae'n ganllaw - dim ond yn swyddogol y mae angen i rywun ynysu os bydd POD yn cysylltu â nhw. Ni chawsom unrhyw fewnbwn i'r ap na'i weithrediad. Gall cyfweiliad olrhain dros y ffôn gymryd hyd at ddwy awr ac nid yw'n gysylltiedig â'r ap o gwbl.

*Pa mor ddibynadwy yw'r pecynnau - ydyn nhw'n rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol?*  
Os bydd rhywun yn derbyn positif o'r pecyn yna fe'i cynghorir i fynd i gael prawf swyddogol. Rydym ni wedi bod yn defnyddio'r pecynnau yn ein hysgolion a'n blynyddoedd cynnar, a dim ond 1 achos o'r profion Prawf Llif Unffordd a gawsom. Os oes gan rywun symptomau, rydym yn argymhell nad ydynt yn defnyddio'r pecyn ond yn mynd i ganolfan brofi.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchiadau gwresog gan y pwyllgor i'r tîm am eu gwaith caled. Nododd y Cynghorydd Groucott fod Cymru wedi delio â T&O trwy awdurdodau lleol, sydd wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus nag yn Lloegr.

**6. Blaen-raglen Waith y Pwyllgor Dethol Oedolion.**

Hoffai'r Cynghorydd Pavia edrych ar y Cynllun Ar Dudalen, sef ffocws y Cyngor i'r dyfodol ar gyfer gweddill y weinyddiaeth hon. Mae angen trefnu gweithdy ar yr Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Cynigiodd y Cynghorydd Brown ricyn yn ystod y dydd ar gyfer hyn.

**7. Blaen-raglen Waith y Cyngor a'r Cabinet.**

**8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion 26 Ionawr 2021 a'u llofnodi fel cofnod cywir. Cynigwyd gan y Cynghorydd Woodhouse ac eiliwyd gan y Cynghorydd Brown.

**9. Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021 am 10.30am.**

Holodd y Cynghorydd Powell a fyddai cychwyn am 10.00 y bore yn rhoi mwy o amser i aelodau rhwng cyfarfodydd, os oes ganddynt un arall yn y prynhawn. Cytunwyd ar 10.30 y bore ar ddiwedd 2020 i gynorthwyo rhai aelodau gyda'r rhediad ysgol, ac ati; cytunodd y pwyllgor i barhau â'r amser hwn am y tro.